# Beth sydd gan Lywodraeth Cymru ar y gweill ar gyfer gwasanaethau rheilffyrdd Cymru?

View this post in English | Darllenwch yr erthygl yma yn Saesneg




Ddydd Mawrth 18 Gorffennaf, bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, Ken Skates, yn gwneud datganiad ar y Gwasanaethau Rheilffyrdd a'r Metro. Er nad yw manylion y datganiad yn hysbys eto, mae Llywodraeth Cymru wedi awgrymu y bydd y broses dendro derfynol ar gyfer caffael y fasnachfraint rheilffyrdd nesaf a gweithredwr y Metro yn dechrau ym mis Gorffennaf 2017, ac y disgwylir i'r contract gael ei ddyfarnu ym mis Ionawr 2018. Yna bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn dechrau gweithredu gwasanaethau ym mis Hydref 2018.

## Beth sydd wedi digwydd hyd yn hyn?

Er nad yw caffael masnachfraint rheilffyrdd wedi'i ddatganoli eto, daeth Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i gytundeb ar ddatganoli pwerau gweithredol i gaffael masnachfraint nesaf Cymru ym mis Tachwedd 2014.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

Yn dilyn hynny, yn 2015, sefydlodd Llywodraeth Cymru Trafnidiaeth Cymru (TfW) fel cwmni dielw y mae Llywodraeth Cymru yn berchen arno'n llwyr. Mae Trafnidiaeth Cymru wrthi'n cynnal y broses gaffael ar gyfer y fasnachfraint nesaf a'r Metro ar ran Llywodraeth Cymru.

Mae'r cwmni wrthi'n gweithio i gaffael yr hyn sy'n cael ei ddisgrifio fel Partner Gweithredu a Datblygu (neu "ODP"). Disgwylir i'r ODP weithredu gwasanaethau rheilffyrdd ledled Cymru, a hefyd i ddatblygu cynlluniau ar gyfer y gwasanaethau Metro ar yr hyn a elwir bellach yn Cledrau'r Cymoedd.

Cynhaliodd y Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus, Gosod y Trywydd ar gyfer Rheilffordd Cymru a'r Gororau, rhwng mis Ionawr a Mawrth 2016. Yn dilyn hyn, cyhoeddwyd y broses gaffael yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd ar 19 Gorffennaf 2016. Cyhoeddwyd bod pedwar cwmni ar y rhestr fer ym mis Hydref 2016:

– Abellio Rail Cymru;

– Arriva Rail Wales/Rheilffyrdd Arriva Cymru Limited;

– KeolisAmey; a

– MTR Corporation (Cymru) Ltd.

Cafodd y cwmnïau ddogfen Blaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer y fasnachfraint (PDF 194KB) ar ddechrau'r broses, a symudwyd wedyn i gyfnod "deialog gystadleuol", sydd bellach bron â chwblhau mae'n debyg, i ddatblygu'r fanyleb dendro derfynol.

Dechreuwyd ymgynghoriad pellach, y tro hwn gan Trafnidiaeth Cymru, ym mis Chwefror 2017 i lywio'r gwaith o ddatblygu manyleb y tendr. Roedd hyn yn rhan o ystod ehangach o waith ymgysylltu, a oedd yn cynnwys mewnbwn gan Transport Focus, y corff gwarchod annibynnol ar gyfer defnyddwyr trafnidiaeth.

Pan fydd y fanyleb yn cael ei datblygu, bydd y broses dendro yn dechrau a bydd y pedwar cwmni ar y rhestr fer yn cael eu gwahodd i gyflwyno ceisiadau.

## Beth yw deialog gystadleuol?

Er bod masnachfreintiau rheilffyrdd yng Nghymru a Lloegr fel arfer yn cael eu caffael gan ddefnyddio dogfen manyleb masnachfraint a baratowyd ymlaen llaw gan Adran Drafnidiaeth y DU (DfT), mae dull Llywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru yn wahanol iawn.

Mae'r "weithdrefn deialog gystadleuol" yn un o'r gweithdrefnau dyfarnu contractau a ganiateir o dan gyfraith yr UE. Caiff cwmnïau posibl eu dewis o hysbyseb cychwynnol. Yna, bydd yr awdurdod contractio yn mynd i ddeialog gyda'r cwmnïau posibl hynny i ddatblygu manyleb contract sy'n bodloni eu gofynion. Yna caiff y cwmnïau a ddewisir eu gwahodd i dendro.

Yn yr ymarfer caffael hwn, mae Trafnidiaeth Cymru wedi trafod agweddau unigol y fanyleb gyda phob cwmni ers mis Ionawr 2017 mewn cyfres o gyfarfodydd wythnosol. Pan fydd y fanyleb derfynol wedi'i chyhoeddi, felly, bydd wedi cael ei pharatoi gyda chyfraniad gan bob un o'r pedwar cwmni a Trafnidiaeth Cymru.

## Felly, a oes unrhyw beth yn wahanol am y broses gaffael hon?

Oes, yn wir! Nid yn unig mai dyma'r fasnachfraint gyntaf i Lywodraeth Cymru ei chaffael, mae'r dull a gymerwyd yn arloesol hefyd.

Yn benodol, nid yw deialog gystadleuol wedi'i defnyddio o'r blaen i gaffael masnachfraint rheilffyrdd yn y DU. Hefyd, y bwriad yw y bydd gwasanaethau Metro ar Gledrau'r Cymoedd yn gweithredu ar yr hyn sy'n cael ei adnabod yn gontract "wedi'i integreiddio'n fertigol". Mae hyn yn golygu y bydd perchnogaeth y rheilffyrdd yn cael eu trosglwyddo o Network Rail i Lywodraeth Cymru, a bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithredu'r gwasanaethau ac yn rheoli'r cledrau a seilwaith eraill. Mae hwn yn gam cyntaf arall i weithredwr rheilffyrdd Prydeinig y sector preifat, ac mae'r cynnig yn codi materion cymhleth i Lywodraeth Cymru a Network Rail, yn benodol o ran atebolrwydd ariannol ac atebolrwydd dros ddiffygion cudd.

Yn olaf, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod am i Trafnidiaeth Cymru reoli'n uniongyrchol cynifer o agweddau ar wasanaethau rheilffordd â phosibl ar sail dielw. Gallai hynny gynnwys, er enghraifft, Trafnidiaeth Cymru yn rheoli gorsafoedd lle cânt eu prydlesu fel arfer i weithredwyr rheilffyrdd eu hunain gan Network Rail.

Yn ychwanegol at hyn, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau y Cynulliad yn ei bapur tystiolaeth (PDF 818 KB) ar gyfer gwaith craffu ar 13 Gorffennaf 2017 fod angen cytuno ar nifer o feysydd o hyd gyda Llywodraeth y DU a Network Rail:

– Trosglwyddo pwerau i gaffael y fasnachfraint (er gwaethaf cytundeb 2014, mae Llywodraeth Cymru wrthi'n gweithio ar gytundeb asiantaeth gyda'r DfT);

– Cymeradwyo cynlluniau trosglwyddo perchnogaeth ac integreiddio Cledrau'r Cymoedd;

– Cytundeb ar "drefniadau ariannol addas" ar gyfer seilwaith Cledrau'r Cymoedd.

Mewn tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet a'i swyddogion eu bod yn gwneud cynnydd da ond bod llawer i'w wneud o hyd ar y materion hyn.

## Oes unrhyw un wedi gwneud sylw ar y cynnydd a'r blaenoriaethau ar gyfer y fasnachfraint?

Gan fynd yn ôl at y Pedwerydd Cynulliad, cynhaliodd y Pwyllgor Menter a Busnes ymchwiliad i Ddyfodol Masnachfraint Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau, a gyflwynodd ei adroddiad ym mis Rhagfyr 2013. Mae'n nodi'r blaenoriaethau ar gyfer y fasnachfraint newydd, a gwnaeth argymhellion ynghylch y broses gaffael – gan bwysleisio'r angen am ymgynghoriad cyhoeddus ac ymgysylltu sylweddol.

Yn y flwyddyn ddiwethaf, bu rhai adroddiadau perthnasol. Ym mis Medi 2016, cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru adroddiad ar fuddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn gwasanaethau a seilwaith rheilffyrdd, a oedd yn edrych ar y broses gaffael. Ar y pryd, nododd yr Archwilydd Cyffredinol nifer o risgiau, heriau a chyfleoedd i Lywodraeth Cymru, a nodwyd rhai penderfyniadau allweddol yr oedd yn teimlo bod yn rhaid eu gwneud o hyd.

Ym mis Ionawr 2017, amlygodd adroddiad Pwyllgor Dethol Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin ar fasnachfraint rheilffyrdd Cymru a'r Gororau yr angen i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ddatblygu rhwydwaith a gwasanaethau rheilffordd Cymru, yn benodol yn nodi'r angen i sicrhau cerbydau modern i gymryd lle'r rhai a ganfu oedd y rhai hynaf yn y DU.

Yn fwy diweddar, cyhoeddodd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau y Cynulliad Ar y trywydd iawn? Masnachfraint y Rheilffyrdd a Metro De Cymru ym mis Mehefin 2017. Roedd adroddiad yr ymchwiliad yn nodi deg prif flaenoriaeth y Pwyllgor ar gyfer y fasnachfraint, tra hefyd yn amlygu cymhlethdod y broses gaffael a'r heriau sylweddol dan sylw.

Bydd pa mor bell y caiff y blaenoriaethau a nodir yn yr adroddiadau hyn, a'r cyhoedd sy'n teithio, eu cynnwys yn y fanyleb yn sicr o fater o ddiddordeb.

---

Erthygl gan Andrew Minnis, Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Llun o Lyfryn Metro Llywodraeth Cymru